NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Kurin Lock ar gyfer casglu meithriniad gwaed

3 Ebrill 2024

## Gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio Kurin Lock yn y GIG i leihau halogiad wrth gasglu meithriniad gwaed wrth i ragor o dystiolaeth gael ei chreu o ran pa mor dda y mae'n gweithio. Gellir ei ddefnyddio mewn adrannau achosion brys lle mae cyfraddau uchel o halogi meithriniad gwaed.

Defnyddir Kurin Lock i gasglu samplau o waed, sydd wedi'u meithrin i wirio am heintiau yn llif y gwaed neu sepsis. Pan gaiff sampl o waed ei gymryd, mae Kurin Lock yn ynysu rhan gyntaf y sampl, ac nid yw'n profi hon am haint. Mae hyn oherwydd bod y rhan gyntaf o'r gwaed yn fwy tebygol o fod wedi'i halogi gan ficrobau ar y croen, a all roi canlyniad positif am haint lle nad oes un (canlyniad positif anghywir). Gall lleihau nifer y canlyniadau positif anghywir leihau'r defnydd diangen o wrthfiotigau.

## Gwybodaeth a chymorth

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7590-7